

Cynllun Busnes Gweinidogion Cymru

Yr Adran Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol

Adroddiad Diweddariad Blynyddol Cyntaf ar weithredu Cynllun Busnes Ionawr 2013 i Chwefror 2014

Cyflwyniad

Sefydlwyd yr Adran Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol yn hydref 2013. Mae'n dwyn ynghyd amrywiaeth o wasanaethau swyddogaethau corfforaethol, gan gynnwys rheoli ariannol, dyrannu, adnoddau dynol a gwasanaethau ystadau.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn disgrifio sut mae pob tîm yn yr Adran sy'n gweithredu ym meysydd o fewn cwrdd Cynllun Busnes Gweinidogion Cymru wedi cyflawni eu cyfrifoldebau o ran y Cynllun Busnes rhwng mis Ionawr 2013 a Chwefror 2014.

Y meysydd cyfrifoldeb a gwmpesir yw:

- Y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol;
- Gwerth Cymru;
- Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddol;
- Ymateb i argymhellion Comisiwn Silk ar ddatganoli treth a phwerau benthyca;
- Dyrannu cyllidebau;
- Swyddfa Ariannu Ewropeaidd Cymru; a
- Gwasanaethau Cyfieithu.

Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol

Ymgysylltu

Lansiwyd y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol (NPS) yn ffurfiol ym mis Tachwedd 2013 yn dilyn Adolygiad McClelland a chyhoeddi'r adroddiad 'Buying Smarter in Tougher Times'. Mae creu'r NPS yn mynd i'r afael ag un o' bedair thema allweddol yr adroddiad, a ardystiwyd gan y Gweinidog Cyllid, sef bod "gwariant cyffredin ac ailadroddus gan Lywodraeth Cymru yn cael ei wneud unwaith". Prif amcan yr NPS yw cyflawni gwerth £25 miliwn o arbedion yn flynyddol drwy well caffael o gategorïau cyffredin ac ailadroddus o wariant cyhoeddus sy'n cyfrif am £1.8 biliwn o wariant blynyddol sector cyhoeddus Cymru o £4.1 biliwn ar nwyddau a gwasanaethau a ddarperir yn allanol. Gwneir hyn drwy gyfuno pŵer gwario agrededig cysylltiedig gyda chymhwyso arfer caffael gorau a gyflenwir ledled y byd caffael cyhoeddus yng Nghymru.

Mae achos busnes NPS yn cynnwys ymrwymiad “i annog sylfaen cyflenwi cryf a hyfyw yng Nghymru”. MAe hyn yn canolbwyntio ar egwyddorion Buddion Cymunedol, er enghraifft helpu i leihau rhwystrau i gyfleoedd busnes Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflenwyr Cymru, yn enwedig busnesau bach a chanolig, fel bod cyflenwyr lleol mewn sefyllfa well i ddarparu nwyddau a gwasanaethau, gan greu cyfleoedd swyddi newydd tra’n cynnal swyddi sydd eisoes yn bodoli.

Mae’r Uwch Dîm NPS wedi cael eu briffio’n llawn am Gynllun Busnes Gweinidogion Cymru a phwysigrwydd ymgysylltu gyda chyrff cynrychioliadol. Caiff cynlluniau a manylion am weithgareddau eu cofnodi er mwyn adrodd arnynt yn fanwl yn y dyfodol.

Nododd y cynllun ymgysylltu â rhanddeiliaid NPS sefydliadau a fyddai’n bartneriaid allweddol wrth gyflawni amcanion NPS gan gynnwys Busnes Cymru, sy’n darparu cymorth am ddim (a ariennir gan Lywodraeth Cymru) i gyflenwyr ledled Cymru ar dendro ar gyfer busnes Llywodraeth Cymru, Canolfan Gydweithredol Cymru a grwpiau cynrychioliadol fel y Cydffederasiwn Diwydiant Prydain (CBI) a Ffederasiwn Busnesau Bach (FSB), sy’n aelodau o Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru Cyfyngedig a Chydweithfa Sgiliau Adfywio Cymru.

Cydweithiodd Busnes Cymru ac NPS wrth gynnal 2 ddiwrnod cyflenwyr ar 12 Tachwedd 2013 yn Abertawe a 14 Tachwedd 2013 yn Llandudno lle daeth dros 200 o gyflenwyr. Nod y diwrnodau cyflenwyr hyn oedd ymgysylltu â’r gymuned fusnes ledled Cymru a darparu gwybodaeth am rôl yr NPS.

Cyflwynodd Sue Moffatt, Cyfarwyddwr NPS, sesiwn friffio i Gydweithfa Sgiliau Adfywio Cymru (CREW) ar 14 Ionawr 2014 yn rhoi manylion am gynnydd NPS a darparu fforwm holi ac ateb i aelodau.

Yn y cyfarfod i holl staff agoriadol yr NPS a gynhaliwyd ar 11 Rhagfyr 2013, gwnaeth Busnes Cymru gyflwyniad ar y gwasanaethau y maent yn eu darparu i gefnogi cymuned fusnes Cymru, gan ddangos cyswllt agos gyda gweledigaeth ac amcanion NPS.

Gweithgareddau sydd ar y gweill

Mae NPS yn llunio ei rhaglen o ymgysylltu ar gyfer y flwyddyn galendr ac yn bwriadu gweithio gyda Busnes Cymru a Chanolfan Gydweithredol Cymru gan gynnwys darparu Digwyddiadau Cyflenwi mewn cysylltiad â chyfleoedd am gontractau a arweinir gan NPS sydd wedi’u trefnu drwy gydol y flwyddyn i ddod. Bydd yr HPS yn ymgysylltu ymhellach â chyrff cynrychioladol a bydd yn rhoi trefniadau ar waith (amseroedd i’w cadarnhau) ar gyfer:

- Cyfarfodydd pellach gyda Chydweithfa Sgiliau Adfywio Cymru (erbyn mis Ebrill 2014);
- Ymgysylltu â’r CBI, FSB, CREW a chyrff eraill;
- Fforymau categori rheolaidd a fydd yn ystyried rhyngwynebau â chyflenwyr a chyrff cynrychioladol o ran cylch gorchwyl;
- Arolygon cyfnodol gyda rhanddeiliaid allweddol; a
- Chyhoeddi Hysbysiadau Gwybodaeth Ymlaen Llaw i’r farchnad 3 i 6 mis cyn dechrau caffael a redir gan NPS, a gyflenwir gan ddiwrnodau cyflenwi pellach i ddarparu tryloywder gorau posibl a gwelededd i’r gymuned fusnes yng Nghymru.

Gwerth Cymru

Ymgynghori

Gwahoddwyd partneriaid cymdeithasol i roi cyfraniad i ddau faes ymgynghori allweddol ar gaffael cyhoeddus.

Cynhaliodd Llywodraeth y DU ymgynghoriad ym mis Awst 2013 ar Wneud Caffael y Sector Cyhoeddus yn Fwy Hygyrch i Fusnesau Bach a Chanolig, yn dilyn adolygiad yr Arglwydd Young. Mae Gwerth Cymru wedi bod yn awyddus i gael barn busnesau yng Nghymru ac felly adborth wedi'i wahodd drwy Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru.

Roedd Gwerth Cymru yn gallu ymgorffori adborth gan bartneriaid cymdeithasol i'r ymateb a gyhoeddwyd gan y Gweinidog Cyllid ac o ganlyniad, mae Llywodraeth y DU wedi cynghori na fydd y mesurau newydd, a fyddai wedi gwneud cynnydd ein bod eisoes wedi cyflawni, yn gymwys i Gymru.

Disgwylir i Gyfarwyddbau Caffael newydd yr UE ar ddechrau 2014. Mae'r Llywodraeth wedi gwahodd cyfraniad gan fusnesau i helpu i lywio barn Cymru ar amrywiaeth o ddewisiadau ynghylch erthyglau opsiynol o fewn y Gyfarwydddeb.

Cafodd y Gronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr (SQuID) ei mabwysiadu gan bob sefydliad mawr yng Nghymru i'w defnyddio ym maes caffael. Ar ôl ei defnyddio ers blwyddyn, gwnaed rhai newidiadau i'r cwestiwn a osodwyd ar ôl ymgynghori â staff caffael y sector cyhoeddus. Unwaith y gosodwyd ail ddrafft o'r cwestiwn, ymgynghorodd Gwerth Cymru â phartneriaid cymdeithasol drwy'r cynllun busnes ar y fersiwn newydd.

Mae ymgysylltiad â Gwerth Cymru gyda'r partneriaid cymdeithasol yn digwydd ar sawl ffurf, er enghraifft:

- Mae cynrychiolwyr busnes yn aelodau o'r Grŵp Llywio Caffael Adeiladu sy'n ymgynnull i gytuno ar y cyd ar ddulliau polisi caffael i gymhwyso o fewn caffael adeiladu sector cyhoeddus;
- Cynhaliwyd cyfarfodydd wyneb yn wyneb hefyd. Yn fwyaf diweddar, cynhaliwyd trafodaethau ym mis Tachwedd gyda'r WCVA dros Gyfarwyddbau caffael yr UE; ac
- Yn ogystal, gweithiodd Gwerth Cymru ar y cyd â'r WCVA i lunio Canllaw Bidio ar y Cyd a gafodd ei lansio ym mis Tachwedd i helpu sefydliadau'r trydydd sector ystyried gwneud cais am contractau cyhoeddus.

Oherwydd pwysau amser a osodwyd gan Lywodraeth y DU, anfonodd Gwerth Cymru y dogfennau ymgynghori ar adolygiad Arglwydd Young a Chyfarwyddbau Caffael yr UE ymlaen at Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru i'w dosbarthu.

Anfonodd Gwerth Cymru fersiwn 2 o'r SQuID at Bartneriaid Cymdeithasol a gofyn iddynt eu dosbarthu i gael sylwadau. Cafwyd sylwadau gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn unig.

Gweithgareddau ar y gweill

Bydd Llywodraeth y DU yn cynnal ymarfer ymgynghori ffurfiol yn fuan ar elfennau dewisol Cyfarwyddbau Caffael newydd yr UE. Nid oes gan Gwerth Cymru amserlenni ar gyfer hyn eto ond disgwylir y bydd ar ddechrau 2014, gyda'r Cyfarwyddbau newydd yn bwriadu cael eu croesi erbyn diwedd 2014. Bydd Gwerth Cymru yn darparu dogfennau ymgynghori i Bartneriaid Cymdeithasol Busnes ac yn gofyn iddynt eu dosbarthu ymysg eu cysylltiadau er mwyn iddynt ymateb.

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddol

Ymgysylltu

Ar ôl 2011 – dyfodol y Cyfrifiad (mynd rhagddo yn ystod 2013)

Yn ystod 2013, datblygodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn sylweddol eu dulliau posibl ar gyfer Cyfrifiadau yn y dyfodol ac wedi ymgynghori â dau ddull rhwng mis Medi a Rhagfyr 2013. Fel rhan o'r ymgysylltiad rhanddeiliaid, cysylltodd y Gwasanaethau gwybodaeth a Dadansoddol (KAS) ag Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru (WSPU) i geisio deall safbwyntiau'r sector busnes ar, yn gyntaf, eu hangen am ddata'r Cyfrifiad ac, yn ail, eu barn ar y dulliau. Teimlwyd ei bod yn bwysig i ymgysylltu â busnesau wrth iddynt wneud defnydd o ddata Cyfrifiad ar gyfer ymchwil i'r farchnad a segmentu cwsmeriaid, ond hefyd fel ailwerthwyr masnachol data'r Cyfrifiad o bosibl.

Fel rhan o amrywiaeth o waith ymgysylltu â rhanddeiliaid amrywiol, gwnaeth KAS gyswllt cychwynnol â'r WSPU yn haf 2013, cyn ymgynghoriad SYG, i'w gwneud yn ymwybodol o'r prosiect a'r posibilrwydd am newid. Yna dilynodd KAS hyn yn ystod yr ymgynghoriad. Darparodd KAS nodyn briffio i'r WSPU ar y Cyfrifiad ac yn siarad â chydweithwyr yn yr WSPU. Roedd hyn yn ddefnyddiol i sicrhau bod unrhyw bryderon neu risgiau o ochr yr WSPU wedi'u nodi.

Ymgynghoriad ystadegol (Ionawr 2014)

Ceisiodd KAS gael sylwadau drwy Uned Partneriaid Cymdeithasol Cymru ar ymgynghoriadau, ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a Chynigion ar Ystadegau Swyddogol.

Grŵp Gwybodaeth Tai (parhaus)

Mae cyswllt yn mynd rhagddo gyda rhai partneriaid cymdeithasol (Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, Tai Cymunedol Cymru, y Sefydliad Tai Siartredig, Tai Pawb ac ati) ynghylch tystiolaeth, ymchwil a gwybodaeth ystadegol ynghylch tai yng Nghymru drwy gyfarfodydd chwarterol y Grŵp Gwybodaeth Tai.

Gweithgareddau ar y gweill

Fel rhan o symudiad i wella ymgysylltiad gydag ystadegau defnyddwyr, mae KAS yn bwriadu datblygu paneli defnyddwyr ar gyfer grwpiau rhanddeiliaid amrywiol. Mae un o'r rhain ar gyfer busnesau ac mae KAS yn bwriadu datblygu hyn dros 2014-15. Rydym yn ystyriol hefyd bod y Swyddfa Ystadegau Gwladol eisoes â grŵp defnyddwyr busnes ac felly byddant yn ceisio osgoi dyblygu ac yn canolbwyntio ar fuddiannau Cymru. Bydd KAS yn cynnwys yr WSPU wrth ddatblygu hyn.

Ymateb i argymhellion Comisiwn Silk ar ddatganoli treth a phwerau benthyca

Ymgysylltu

Cynhaliwyd dau gyfarfod brecwast (25 Ebrill a 4 Medi 2013) gyda chyrff cynrychioli busnesau a chyflogwyr sy'n ymwneud â diwydiannau adeiladu, tai ac eiddo i drafod y cynnig i ddatganoli treth dir y dreth stamp i Gymru. Roedd y cyfarfodydd yn gyfle cynnar i gael barn busnesau cyn ymateb Llywodraeth y DU i adroddiad Silk Rhan 1, a oedd yn argymhell datganoli treth dir y dreth stamp. Cafodd y rhai a oedd yn bresennol wybod, pe byddai treth dir y dreth stamp yn cael eu datganoli, byddai eu syniadau yn cael eu hystyried wrth ddatblygu polisi yn y dyfodol

Trefnwyd y cyfarfodydd ar y cyd â CBI Cymru, a chawsant eu harwain gan y Gweinidog Cyllid. Roedd cyfraniad CBI Cymru yn ddefnyddiol iawn wrth nodi busnesau a fyddai â diddordeb mewn cyfrannu, a chreu diddordeb ac annog cyfranogiad yn y cyfarfodydd.

Yn ystod y flwyddyn, cyfarfu'r Gweinidog Cyllid ar wahân â chynrychiolwyr y sector tai ac adeiladu am drafodaethau anffurfiol ynghylch treth dir y dreth stamp. Gwnaeth y digwyddiadau brecwast a chyfarfodydd eraill gadarnhau'r gefnogaeth eang o fydd busnes ar gyfer datganoli treth dir y dreth stamp, a nodi syniadau ar gyfer datblygu'r polisi yn y dyfodol. Caiff y cynigion hyn eu hystyried ymhellach a byddant yn cael eu bwydo i mewn i'r ymgynghoriad ffurfiol a fydd yn dilyn maes o law.

Gweithgareddau ar y gweill

Mae Diwygio Buddsoddi ac Ariannol Strategol wrthi'n sefydlu Grŵp Ymgynghori Treth Cymru a fydd yn cael ei gadeirio gan y Gweinidog Cyllid. Bydd y grŵp yn cynghori'r Gweinidog Cyllid ar weithredu polisi treth y gymuned fusnes yn ehangach.

Bydd ymgysylltiad hefyd â chyrff sydd â diddordeb mewn datblygu'r polisi treth tirlenwi yn y dyfodol.

Dyrannu Cyllideb

Ymgysylltu

Cyllideb Llywodraeth Cymru

Cafodd y sector busnes ei wahodd i fynd i ddigwyddiadau cyllideb Cymru yn 2013, a gynhaliwyd gan y Gweinidog Cyllid. Diben y digwyddiadau hyn oedd trafod:

- Y rhagolwg ariannol heriol
- Effaith Rownd Gwario Llywodraeth y DU ar gyllideb Cymru, a
- Sut y gall Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid ddatblygu ymateb ar y cyd i'r her o gyllidebau sy'n methu.

Cynhaliwyd y digwyddiadau ar 11 Gorffennaf 2013 a 11 Tachwedd 2013 ac roeddent yn rhan o gyfres o ddigwyddiadau cyfathrebu a gynhaliwyd ledled Cymru gydag amrywiaeth o bartïon â diddordeb.

Cynhaliwyd y digwyddiad cyntaf 'Sefyll dros Gymru' yn dilyn cyhoeddi Rownd Gwario Llywodraeth y DU. Rhoddodd swyddogion drosolwg o'r cyd-destun economaidd ac ariannol presennol ac effaith y Rownd Gwario ar Gymru.

Cynhaliwyd yr ail ddigwyddiad 'Blaenoriaethau i Gymru' yn dilyn cyhoeddi Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2014-15 er mwyn galluogi'r Gweinidog Cyllid i glywed yn uniongyrchol farn ar gynigion gwario'r Llywodraeth.

Roedd llawer o bobl yn y digwyddiadau hyn ac roedd yn gyfle i gynrychiolwyr busnes ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau i bobl Cymru.

Cynllun Buddsoddi Seilwaith Cymru

Ym mis Mai 2012, cyhoeddwyd Cynllun Buddsoddi Seilwaith Cymru ar gyfer Twf a Swyddi (WIIP). Roedd yn gam ar gyfer newid yng Nghymru, gan annog cydweithio ar draws y Llywodraeth a thu hwnt i ddatblygu dealltwriaeth strategol ar y cyd o seilwaith Cymru. Mae'r cynllun wedi gweithredu fel catalydd i hybu buddsoddiad ac ysgogi alinio rhwng blaenoriaethu buddsoddiadau seilwaith, Rhaglenni Ewropeaidd a blaenoriaethau cyflawni ehangach Llywodraeth Cymru.

Mae ymgysylltiad parhaus â rhanddeiliaid Cymru wedi bod yn rhan bwysig i lunio cynnydd hyd yma. Mae'r Llywodraeth wedi cynnwys y sector preifat yn y gwaith parhaus o ddatblygu'r WIIP, i sicrhau bod llywodraeth a diwydiant yn dod at ei gilydd i alluogi safbwynt strategol ar draws sectorau o anghenion, cyfleoedd a risgiau seilwaith Cymru mewn cysylltiad â buddsoddiad cyfalaf presennol ac yn y dyfodol.

Yn ystod 2013, mae'r Gweinidog Cyllid wedi cynnal amrywiaeth eang o ddulliau ymgysylltu, gan gynnwys:

- Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol Awdurdod Lleol;
- Swyddfa Cymru ac uwch Weinidogion Llywodraeth y DU;
- Cydweithfa Sgiliau Adfywio Cymru;
- Fforwm Polisi Cymru;
- Cyngor Partneriaeth Cymru;
- Cyfarfodydd unigol â phartneriaid darparu seilwaith; a
- Sawl ymweliad â safleoedd busnes a chymunedol i ddeall yn well sut mae buddsoddiadau yn effeithio ar bobl ar lawr gwlad.

Diben y digwyddiadau hyn ac ymgysylltiad parhaus â swyddogion yw sicrhau bod y cyfoeth eang o wybodaeth ac arbenigedd a gynhelir gan rhanddeiliaid allanol o bob rhan o Gymru a the hwnt yn cael ei ddefnyddio fel sail ar gyfer datblygu cynlluniau. Mae enghreifftiau o fanteision y gweithgarwch hwn yn cynnwys:

- Y biblinell buddsoddi cyntaf ar y cyd rhwng llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol yn y DU;
- Lledaenu materion rhanbarthol allweddol i uwch Weinidogion Llywodraeth y DU;

- Hwb i fuddsoddiad mewn seilwaith drwy fentrau ar y cyd fel model Cymhelliant Benthycu Llywodraeth Leol Cymru;
- Cefnogaeth eang ar gyfer y dull hwn gan bob rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru; a
- Chydnabyddiaeth gynyddol o anghenion a chyfleoedd seilwaith Cymru gan Lywodraeth y DU.

Gweithgareddau ar y gweill

Cyllideb Llywodraeth Cymru:-

Bwriad Llywodraeth Cymru yw trefnu digwyddiadau ymgysylltu pellach â rhanddeiliaid yn ystod paratodau'r Gyllideb yn 2014.

WIIP:-

Bydd Cynllun Buddsoddi Seilwaith Cymru yn parhau i ddatblygu ac ymgysylltu, a bydd yr ymgysylltiad yn barhaus.

Bydd ymgysylltiad â busnes ar Gynllun Buddsoddi Seilwaith Cymru yn parhau gydag ymgysylltu â rhanddeiliaid y sector preifat yn digwydd yn unigol. Bydd y Gweinidog Cyllid yn sefydlu grŵp cynghori hefyd er mwyn rheoli cyfraniad gwybodaeth ac arbenigedd yn well.

Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

Ymgysylltu

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu'n helaeth â'r gymuned fusnes, gan gynnwys undebau llafur, wrth ddatblygu rhaglenni cronfa Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd newydd ar gyfer y cyfnod 2014 – 2020. Bydd y rhaglenni hyn yn pwysleisio'n gryf ar greu'r amodau ar gyfer twf a swyddi cynaliadwy.

Mae'r ymgysylltiad hwn wedi cynnwys cynrychiolaeth gref yn y grwpiau rhanddeiliaid ac arbenigedd canlynol:

- Fforwm Partneriaeth Rhaglenni Ewropeaidd (EPPF), sy'n darparu cyfraniad strategol i'r gwaith o ddatblygu Rhaglenni Ewropeaidd y dyfodol;
- Ffrydiau gwaith arbenigol a ystyriodd y gwaith manwl o ddatblygu rhaglenni'r UE.

Mae'r sector busnesau hefyd wedi ymgysylltu â'r gwaith o ddatblygu'r rhaglenni newydd drwy ymarfer ymgynghori cyhoeddus llawn a ddaeth i ben ym mis Ebrill 2013. Daeth cyfanswm o 126 o ymatebion i law ac roedd 15% ohonynt o fusnesau a sefydliadau o'r sector preifat. Fel rhan o'r trefniadau ymgynghori ffurfiol hyn, aeth Llywodraeth Cymru i gyfarfodydd â Busnes Cymru a'i rannau cyfansoddol i drafod cynigion y dyfodol a chlywed barn y gymuned fusnes. Yn dilyn hyn cafwyd cyfarfod a gynhaliwyd gan y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Materion Ewropeaidd ar y pryd â busnes fel rhan o Ymarfer Myfyrio Llywodraeth Cymru ar gyfeiriad strategol y rhaglenni newydd.

Gweithgareddau ar y gweill

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i weld y gymuned fusnes yn parhau i ymgysylltu wrth drafod gweithredu a monitro'r Rhaglenni Ewropeaidd newydd. Mae cynrychiolaeth o fusnes ar Bwyllgor Monitro Rhaglenni Cymru newydd ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd 2014-2020 (PMC) i gynnwys traean o'r aelodaeth llawn. Cynhaliodd y PMC ei gyfarfod agoriadol ym mis Rhagfyr 2013 ac mae rhestr o bartneriaid sydd wedi'u cynrychioli wedi'i gynnwys yn y wybodaeth ychwanegol/atodol isod.

Gwasanaeth Cyfieithu

Ymgysylltu

Mae Prosiect Adnoddau Cyfieithu Cymraeg a Rennir yn sefydlu Cytundeb Fframwaith ar gyfer cyfieithu a chyfieithu i'r pryd a fydd ar gael i'w ddefnyddio gan sefydliadau ar draws sector cyhoeddus Cymru. Mae 79 o sefydliadau wedi mynegi diddordeb cychwynnol wrth ddefnyddio'r Cytundeb. Ystyrir bod gwerth y Cytundeb yn £1.5 miliwn y flwyddyn.

Mae'r mwyafrif helaeth o gyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd Cymraeg / Saesneg yn fasnachwyr unigol neu gwmnïau bach, yn gweithredu ledled Cymru a thu hwnt. O ystyried y capasiti cyfieithu tebygol a'r pwysigrwydd i ymgysylltu â chynifer o gyflenwyr â phosibl i wasanaethau'r sector cyhoeddus yn lleol ledled Cymru, cymerwyd y camau canlynol i annog ymgysylltu â chyflenwyr posibl:

- Cyhoeddwyd Hysbysiad Tybiannol ar GwerthwchiGymru dros flwyddyn cyn cyhoeddi'r Hysbysiad Contract. Y diben oedd rhoi gwybod i gyflenwyr o ofynion y Cytundeb a rhoi digon o amser iddynt baratoi.
- Gofynnwyd i bob sefydliad yn y sector cyhoeddus yng Nghymru gyfleu'r manylion yn yr Hysbysiad Tybiannol i'w cyflenwyr presennol ac i gyflenwyr a oedd wedi mynegi diddordeb i weithio gyda nhw.
- Rhoddwyd hysbyseb yn *Golwg* yn nodi'r bwriadu i gaffael er mwyn cyrraedd cyflenwyr nad ydynt yn gweithio i gorff cyhoeddus neu ar ran corff cyhoeddus.
- Anogwyd cyflenwyr posibl i gofrestru ar GwerthwchiGymru er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf.
- Cafodd cyflenwyr eu cynrychioli ar y Bwrdd Prosiect gan Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru (CCC). Roedd CCC yn cefnogi'r prosiect ac yn sicrhau bod ei haelodau yn cael yr holl wybodaeth angenrheidiol ac yn ystyried adborth cyflenwyr ar y strategaeth caffael a'r dogfennau tendro pan fo'n briodol.

Ar ddechrau'r cyfnod tendro (Hydref 2013), trefnwyd cyfres o ddigwyddiadau ar gyfer cyflenwyr mewn cysylltiad â Busnes Cymru, i roi cyngor ymarferol ar dendro a datblygiad busnes, ar gyfer y contract hwn a chontractau eraill.

I'r cyflenwyr nad oeddent yn gallu mynychu'r digwyddiadau hyn, lluniwyd crynodeb o gwestiynau cyffredin a oedd ar gael drwy'r porth. Roedd tîm y prosiect wrth law drwy gydol cyfnod y tendr i ateb cwestiynau a delio ag ymholiadau technegol gan gyflenwyr.

Daeth y cyfnod tendro i ben ar 1 Tachwedd 2013 gyda thros 50 o dendrau wedi dod i law. Ac eithrio dau, roedd pob un o'r dendrau hyn gan fusnesau bach a chanolig o Gymru.

Gweithgareddau ar y gweill

Cafwyd digon o dendrau llwyddiannus er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru i ddyfarnu chwech o'r deg Lot o'r Cytundeb Fframwaith. I weddill y Lotiau (yr holl gyfieithu ysgrifenedig i Gymru), penderfynwyd mynd cam yn ôl yn y broses dendro i'r cam technegol a chynnig ail gyfle i gyflenwyr. Mae cyflenwyr wedi cael adborth ar eu perfformiad, a byddant yn cael sylwadau mwy cyffredinol ar wallau cyffredin a llefydd i wella fel y gwelwyd yn y broses profi, er mwyn eu helpu i baratoi ar gyfer yr ail brawf.

Mae Gwasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru wrthi'n gweithio gyda Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru i sicrhau bod y gweithgareddau hyfforddi a datblygu ar gael i gyflenwyr yn adlewyrchu'r sgiliau sy'n gofyn am gryfhau, fel y dangoswyd yn y broses dendro. Mae hefyd yn helpu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i sefydlu cymhwyster galwedigaethol newydd i gyfieithwyr, ac yn ceisio, drwy Brosiect Adnoddau Cyfieithu Cymru a Rennir, i rannu cofion cyfieithu a chronfeydd data terminoleg fel corpws o ddeunyddiau safonol i'w defnyddio gan gyfieithwyr yn eu gwaith o ddydd i ddydd.